

PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 18 Ionawr, 2023.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Cynghorydd E. Goodjohn (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, C.P. Franks, S.J. Haines, H.C. Hamilton, S.M. Hanks, Dr. I.J. Johnson ac N.J. Wood

Hefyd yn bresennol: Councillors I. Buckley, L. Burnett ((Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau) , W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), N.C. Thomas a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

615 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

616 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd B. Loveluck-Edwards.

617 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr, 2022 fel cofnod cywir.

618 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

619 ARCHWILIO CYMRU: ADOLYGIAD SICRWYDD AC ASESIAID RISG (SAR) CYNGOR BRO MORGANNWG 2021/22 AC ADRODDIAD ASTUDIAETH GENEDLAETHOL ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU AR BARODRWYDD CARBON YN Y SECTOR CYHOEDDUS AR GYFER SERO NET ERBYN 2030 (CYF) –

Cafodd yr eitem a gyfeiriwyd o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 12 Rhagfyr, 2022 ei chyflwyno gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol.

Roedd yr adroddiad blynyddol (ynghlwm yn Atodiad A) yn crynhoi canfyddiadau Archwilio Cymru o'i adolygiad Sicrwydd ac Asesu Risg o'r Cyngor ar gyfer cyfnod archwilio 2021/22, gan gynnwys sefyllfa ariannol y Cyngor, gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (gan gynnwys trefniadau hunanasesu) a chynlluniau lleihau carbon.

Roedd hi'n werth nodi'r argymhelliad a wnaed fod angen i'r Cyngor bennu costau llawn ei gynllun gweithredu, yn ogystal â'r 'galwadau i weithredu' o'r astudiaeth genedlaethol o Barodrydd y Sector Cyhoeddus am Garbon Sero Net erbyn 2030, ynghylch arweinyddiaeth a'r defnydd o adnoddau, ymhlith gweithgareddau eraill, er mwyn i'r sector cyhoeddus lwyddo i ddatgarboneiddio. Ymateb arfaethedig y Cyngor oedd cynnal ymarfer costio ar gyfer Prosiect Sero yn rhan o gyflawniad y prosiect hwnnw, y cyfeiriwyd ato yn adroddiad y Cabinet ar ailwampio Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, a llunio cynigion ar gyfer y gyllideb referniw.

Ar ôl cyflwyno'r eitem, cododd y Pwyllgor nifer o gwestiynau a sylwadau.

Soniodd y Cynghorydd Dr. Johnson am yr heriau ehangach yn gysylltiedig â chostio a chyllido datgarboneiddio, ac am yr angen am lefel uwch ac ehangach o arweinyddiaeth yn y maes hwn. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod hyn yn dangos pa mor gymhleth yw'r her o gostio Prosiect Sero, yn ogystal â chanfod cyllid ar gyfer hyn. Roedd y Cyngor, ar wahanol lefelau, yn edrych ar ffynonellau cyllid posibl a oedd yn gyson ag ethos Prosiect Sero, ac roedd y gwaith hwnnw'n mynd rhagddo.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cwestiynau 'rhetregol' gwych yn yr adroddiad archwilio cenedlaethol, a ddisgrifiai gwestiynau cymhleth, ond hanfodol, yr oedd angen i'r Cyngor fynd i'r afael â nhw er mwyn llwyddo i ddatgarboneiddio. Cytunai'r Cyfarwyddwr â hynny, a dyna pam bod Prosiect Sero wedi'i nodi'n un o'r tair her bwysig yng Nghynllun Datblygu Blynyddol (CDB) 2023/24.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Franks at y paragraff yn yr Asesiad Risg a Sicrwydd. Adolygiad o 'record gymysg' y Cyngor o ran cyrraedd targedau arbed, ac a oedd y Cyngor yn hyderus bod hyn wedi'i oresgyn. Eglurwyd bod y rheolyddion wedi dod i'r casgliad bod Cyngor Bro Morgannwg mewn sefyllfa dda i gynnal ei gydnerthedd ariannol, ond y byddai'n dal angen iddo fynd i'r afael â'r 'bwlch' yn y gyllideb dros y tymor canolig, ac ystyried y defnydd o arbedion, ffynonellau incwm a chronfeydd wrth gefn i'r perwyl hwnnw. Yn dilyn ymholiad ynghylch gwarged blaenorol y gyllideb, dywedwyd y byddai hyn yn cael ei gyfeirio i sylw swyddogion Cyllid er mwyn cael ymateb. O ran y pwysau ar y gyllideb yn y dyfodol, roedd y Tîm Arweinyddiaeth Strategol a swyddogion a staff eraill y Cyngor wedi treulio cryn amser yn ystyried cynigion ar gyfer y gyllideb yn y dyfodol, a'r angen i fonitro hyn yn effeithiol.

Mewn perthynas ag adroddiad Archwilio Cymru a'r arbedion a gyflawnwyd yn y blynyddoedd cynt, awgrymodd yr Is-gadeirydd y byddai'n fuddiol sicrhau bod targedau'n cael eu gosod ar gyfer meysydd penodol a fyddai wedyn yn llai tebygol o gael effaith ar wasanaethau a meysydd allweddol eraill ym musnes y Cyngor, a helpu i graffu ar y rhain yn briodol.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiadau atodol, y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

(1) Bod y sylw canlynol gan y Pwyllgor, ynghylch cynnwys Adolygiad Sicrwydd ac Asesu Risg Cyngor Bro Morgannwg 2021/22, yn cael ei gyfeirio at y Cabinet:

- Yr angen i'r Cyngor fonitro a mynd i'r afael â thargedau arbedion, er enghraifft, edrych i osod targedau ar gyfer meysydd arbedion penodol er mwyn helpu i gyrraedd targedau arbedion mewn ffordd fwy targedig sy'n cyflawni'r arbedion y gofynnwyd amdanynt heb effeithio ar wasanaethau a meysydd allweddol eraill. o fusnes y Cyngor.

(2) Y dylid cyfeirio'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor, ynghylch cynnwys Adroddiad Cenedlaethol Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Di-Garbon Net erbyn 2030 ac ymateb y Cyngor, at y Cabinet:

- Roedd yn bwysig i'r Cyngor ystyried yr heriau ehangach o ran ariannu'r symudiad i Sero Net, o ble y daw'r cyllid hwn, a mynd i'r afael â datgarboneiddio o amgylch y gadwyn gyflenwi ehangach sy'n gysylltiedig â'r Cyngor.
- Yr angen am arweinyddiaeth ar lefel uwch ac ehangach er mwyn cyflawni datgarboneiddio.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) I'r Cabinet gael gwybod am farn y Pwyllgor, fel rhan o'u hystyriaeth o'r adroddiadau hyn.

620 CEFNOGAETH COSTAU BYW AR GYFER BWYD, MANNAU CYNNES A DULLIAU CEFNOGI ERAILL (CYF) –

Cafodd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Cabinet ar 15 Rhagfyr, 2022 ei chyflwyno gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol. Pwrpas yr eitem oedd rhoi trosolwg o'r gwaith a gyflawnwyd gan Gyngor Bro Morgannwg ac eraill i gefnogi preswylwyr yn ystod yr argyfwng costau byw presennol, ac i fanylu ar ymateb y Cyngor i'r astudiaeth genedlaethol gan Archwilio Cymru. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi:

- Yr heriau economaidd a wynebir ar raddfa'r Sir, Cymru a'r DU, nid yn unig o safbwynt preswylwyr ond hefyd o safbwynt y Cyngor ei hun.
- Y gwaith a gyflawnwyd gan y Cyngor i olrhain ac ymdrin â'r diffyg cynyddol mewn diogeledd bwyd a phroblemau cysylltiedig dros y blynyddoedd diwethaf, hy, drwy Asesiadau Effaith ar Lesiant a Chymuned y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Dros y flwyddyn ddiwethaf, cafwyd tua £100,000 o gyllid allanol i fynd i'r afael â'r diffyg diogeledd bwyd a phroblemau cysylltiedig er mwyn helpu i gefnogi mentrau fel Pod Bwyd Penarth (a redir gan Dîm Tai y Cyngor), yn ogystal â Banciau Bwyd y Fro. Bu'r cyllid hefyd o gymorth i'r Cyngor greu a dosbarthu

dros 1,200 o barseli cymorth bwyd a hylendid hanfodol, mewn cydweithrediad â phartneriaid.

- Sefydlu Grŵp Costau Byw trawsadrannol er mwyn sicrhau bod y gwerth mwyaf yn cael ei sicrhau, ac i siapio ymateb y Cyngor i'r argyfwng mewn modd strategol.
- Trosolwg o'r cyllid i gefnogi mesurau o'r fath, ee, Cynllun(iau) Costau Byw Llywodraeth Cymru, Cynllun Tanwydd y Gaeaf, cymorth bwyd cymunedol, partneriaethau bwyd a manau cynnes. Ar hyn o bryd, gellid cadarnhau bod y Cyngor wedi derbyn £166,000 o gyllid ychwanegol ac wedi clustnodi tua £158,000 o'r arian hwnnw, a oedd yn helpu tua 5,000 o breswylwyr y Fro bob wythnos. Roedd y cyllid wedi bod o gymorth i brynu stoc o fwyd ychwanegol a chefnogi banciau bwyd ar adeg pan oedd rhoddion yn prinhau, ac i sefydlu banciau bwyd dros dro a chynnal gweithdai coginio yn y gymuned. Byddai £97,000 o gyllid ychwanegol, ar y cyd â'r Bartneriaeth Bwyd, hefyd yn cael ei ddarparu ymhen amser.
- Trosolwg o'r Prosiect 'Croeso Cynnes', a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn rhoi cyllid i sefydliadau gychwyn cynlluniau, darparu bwyd poeth, a helpu i dalu costau gwirfoddolwyr ac ati. Y nod oedd creu rhwydwaith o fannau cynnes i drigolion lleol drwy'r Sir, er mwyn cynnig cynhesrwydd, lleihau unigrwydd, darparu lluniaeth a chefnogaeth neu gyngor arall am ddim. Roedd y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel wedi awgrymu y dylid ehangu'r rhwydwaith ymhellach i sicrhau ei fod yn hygyrch i holl drigolion y Fro. Roedd tudalen we Croeso Cynnes wedi cael ei lansio ar wefan y Cyngor, ac yn cynnwys map rhyngweithiol a oedd yn galluogi trigolion i chwilio am fan cynnes cyfagos.
- Soniwyd am yr amrywiaeth o gymorth arall a gynigir gan y Cyngor a phartneriaid, gan gynnwys prosiect Hyb Mwy Na Bwyd yn Llanilltud Fawr (sy'n derbyn tua £100,000 o gyllid drwy'r Loteri Genedlaethol), y tudalennau gwe Costau Byw, codi proffil cyhoeddus y Prosiect Mannau Cynnes, hyd at dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i staff y Cyngor.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr hefyd at adroddiad Archwilio Cymru 'Amser am Newid – Tlodi yng Nghymru' a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022. Roedd yr adroddiad yn manylu ar nifer o argymhellion i Lywodraeth Leol a Chenedlaethol ymateb iddynt, hy, strategaethau lleol, targedau ac adroddiadau ar berfformiad er mwyn lliniaru a threchu tlodi.

Ar ôl cyflwyno'r eitem a gyfeiriwyd, cododd y Pwyllgor nifer o gwestiynau a sylwadau.

Wedi i'r Cynghorydd Carroll holi ynghylch y defnydd o oddeutu £158,000 o'r £166,000 o gyllid ychwanegol ar gyfer bwyd, cymorth costau byw a phrosiectau manau cynnes, cadarnhawyd bod y swm hwnnw wedi'i ddyrannu neu ei drosglwyddo i'r cynlluniau cymunedol perthnasol i'w gwario gan y cynlluniau hynny. Wedi i'r Cynghorydd holi am y cyllid a oedd yn weddill a'r trefniadau i ddyrannu'r ail ffrwd o gyllid cyn y ffrwd gyntaf, o ran dyrannu'r cyllid mewn modd anghronolegol, dywedwyd bod hyn yn dibynnu ar werth y cynigion amrywiol am gyllid, ac ar drefniadau i ddyrannu'r cyllid o wahanol ffynonellau i sicrhau bod y cyllid yn creu cymaint o fudd ag a oedd yn bosibl. O ran y cyllid a oedd yn weddill, roedd £1,000 ar ôl ar gyfer y Gronfa Cymorth Bwyd Uniongyrchol a £5-6,000 ar ôl yn y gronfa Banciau Cynnes, a byddai dadansoddiad a manylion pellach yn cael eu darparu.

Mewn ymateb i sylw'r Cynghorydd Haines ynghylch y ffaith bod manau cynnes wedi'u lleoli'n bennaf yn ardaloedd mwy trefol y Fro, o gymharu â'r ardaloedd mwy gwledig ac arnynt hefyd angen cymorth, esboniwyd mai'r sail resymegol dros sefydlu manau cynnes yn yr ardaloedd hyn oedd bod cyfleusterau'n bodoli eisoes y gellid eu defnyddio i sefydlu a chynnal y ddarpariaeth yn gyflym. Er hynny, roedd manau cynnes hefyd wedi cael eu sefydlu mewn ardaloedd mwy gwledig yn y Fro, hy, Y Wig, Saint-y-brid, Pendaulwyn a'r Bont-faen, a'r nod oedd ehangu i ardaloedd tebyg, fel Llandochau, y Rhws ac, o bosib, Sain Tathan, ac unrhyw ardaloedd eraill y gallai'r Aelodau eu nodi a oedd yn cynnwys cynlluniau manau cynnes cymunedol a oedd angen cymorth. Awgrymodd y Cynghorydd Haines y dylid defnyddio tafarndai mewn ardaloedd gwledig fel manau cynnes posibl wrth symud ymlaen.

Amlygodd y Cynghorydd Dr. Johnson fod angen cynaliadwyedd a chyllid tymor hwy ar gyfer y manau cynnes hyn a'r cynlluniau cysylltiedig, yn ogystal â chefnogaeth ychwanegol a chwmpas ehangach, hyd yn oed mewn ardaloedd mwy trefol, hy, Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is, y stadau canolog ac yn ardaloedd mwy gorllewinol y Barri. Eglurwyd bod manau cymunedol ychwanegol ar gyfer y rhannau hynny o'r Barri dan ystyriaeth, a bod cynlluniau bwyd, a chynlluniau eraill, yn cael eu cynnal yn Ysgolion Cynradd Heol Gladstone a Heol Holton.

Cyfeiriodd yr Is-Gadeirydd at y man cynnes yng Nghlwb Ieuenctid Y Wig ac effaith gadarnhaol hyn ar bobl iau sy'n byw mewn ardal wledig, gan ychwanegu ei bod yn bwysig ehangu cwmpas y manau hyn ledled y Fro yn ystod yr argyfwng costau byw. Awgrymodd hefyd y dylid cyfeirio unrhyw ddiweddariadau neu adroddiadau pellach i'r Cabinet ynghylch ymateb y Cyngor i Adroddiad Archwilio Cymru i sylw'r Pwyllgor er mwyn craffu ar effeithiolrwydd y camau gweithredu a'r prosiectau a gyflawnwyd yn rhan o ymateb y Cyngor i Adroddiad Archwilio Cymru, ac i amlygu cynnydd neu lwyddiant y rhain wrth fynd i'r afael â thlodi bwyd a thanwydd, ac ati.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad atodol, y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

- (1) Y dylid nodi ymateb y Cyngor i Adroddiad Archwilio Cymru.
- (2) Y dylid cyfeirio unrhyw ddiweddariadau pellach neu adroddiadau i'r Cabinet ar ymateb y Cyngor i Adroddiad Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol, yn benodol, unrhyw adroddiadau ar effeithiolrwydd y prosiectau sy'n cael eu cyflawni fel rhan o'r ymateb i gostau byw. cymorth ar gyfer bwyd, manau cynnes a dulliau cymorth eraill.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys y cyfeirio a'r adroddiad atodol a thrafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Er mwyn i'r Pwyllgor allu craffu ar y camau gweithredu a'r prosiectau a gyflawnwyd fel rhan o ymateb y Cyngor i Adroddiad Archwilio Cymru, ac i dynnu

sylw at gynnydd a llwyddiant y rhain wrth fynd i'r afael â thlodi bwyd a thanwydd, ac ati.

621 ADRODDIAD DIWEDDARU PROSIECT SERO (PW) –

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, yn manylu ar yr ymateb i'r sylwadau a'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2022 ynghylch adrodd ar Brosiect Sero yn y dyfodol, a'r newidiadau a wnaed i'r adroddiadau yn sgil hynny. Roedd yr atodiad i'r adroddiad yn rhoi sylw i'r prif bwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol, ee, rhagor o fanylion am gyllid a'r modd y dyrennir cyllid, adnoddau a chronfeydd wrth gefn, heriau a rhwystrau'r Prosiect ac ati. Yn rhan o hyn, roedd Rheolwr Rhaglen Prosiect Sero newydd wedi'i benodi, ac un o'i blaenoriaethau oedd cryfhau'r trefniadau adrodd yn gysylltiedig â Phrosiect Sero.

Roedd y Cynllun Her yn nodi'r gweithgareddau a fyddai'n cyfrannu nid yn unig at nod y Cyngor o fod yn sero net erbyn 2030 ond at y nod ehangach o fod yn sero net ledled Cymru erbyn 2050. Roedd Atodiad A yn amlinellu'r cynnydd ers yr adroddiad diwethaf ar y 18 her a'r 3 thema (gan gynnwys angen y Cyngor i ddangos arweinyddiaeth gref, i gyflawni ei gyfrifoldeb tuag at genedlaethau'r presennol a'r dyfodol ac i wneud gwahaniaeth nawr). Roedd ystod eang o weithgareddau wedi'u cynnal i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gyflawni yn erbyn ymrwymadau yng Nghynllun Her y Newid Hinsawdd ac i fwrw ymlaen â Phrosiect Sero. Roedd hyn yn cynnwys mwy o ymgynghori â'r gymuned / digwyddiadau sgwrsio am sero net ym Mhenarth a Llanilltud Fawr, datblygu cynllun seilwaith gwyrdd, gosod pwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan, diweddariadau am y Strategaeth Gwastraff a gosod mesuryddion dŵr awtomatig yn holl eiddo'r cyngor. Roedd cyllid hefyd wedi'i sicrhau i archwilio'r potensial am waith datgarboneiddio mewn 22 o ganolfannau cymuned a dau adeilad a oedd ar brydles i Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GVS). Roedd meysydd eraill yn cynnwys drafftio Strategaeth Gaffael gan ystyried yr angen i sicrhau sero net, gosod datrysiadau gwresogi hybrid mewn tai sy'n eiddo i'r Cyngor yn ogystal â gweithredu Siarter Teithio newydd i'r Staff.

Amlinellwyd y data allweddol ar allyriadau carbon y Cyngor, fel y cawsant eu hadrodd wrth Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2022, yn seiliedig ar 3 'chwmpas': o Gwmpas 1, allyriadau uniongyrchol fel llosgi tanwydd ac allyriadau o'r fflyd hyd at Gwmpas 3, allyriadau anuniongyrchol fel rhai a briodolir i nwyddau a gwasanaethau a brynir, lle'r oedd mwyafrif yr allyriadau carbon (89.5%).

Roedd gwaith hefyd yn cael ei wneud i edrych ar y raddfa allyriadau sirol o fewn y Fro gyfan, yn ogystal â'r adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymagwedd at reoli rhaglen ac adrodd ar gynnydd Prosiect Sero, gan gynnwys defnyddio data a'u trefnu yn ôl blaenoriaeth i'w cyflwyno gerbron y Bwrdd Prosiect Sero ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Roedd y Cyngor hefyd wedi derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru (LIC) a hefyd gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Yn rhan o hyn roedd angen gwneud gwaith i gefnogi datgarboneiddio, a'r cynlluniau heb eu pennu eto.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, cododd y Pwyllgor nifer o gwestiynau a sylwadau.

Holodd y Cynghorydd Franks ynghylch y cyllid ar gyfer datgarboneiddio canolfannau cymunedol ym Mro Morgannwg ac a fyddai hyn yn cael ei ddarparu gan y Cyngor, neu a fyddai angen sicrhau arian cyfatebol o ffynonellau cymunedol, fel y gwirfoddolwyr sy'n helpu i gynnal y canolfannau hyn. Eglurwyd bod cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer yr arolwg o 22 o ganolfannau cymunedol a'r ddau adeilad a brydleswyd i GVS i weld pa fesurau datgarboneiddio y gellid eu cyflawni. Ni fyddai'n rhaid i'r ffynonellau cymunedol na'r gwirfoddolwyr dalu am yr arolygon datgarboneiddio hyn. Byddai angen ystyried cyllid ar gyfer unrhyw fesurau dilynol ar ôl cwblhau'r arolygon. Mewn ymateb i ymholiad arall y Cynghorydd ynghylch cynllun Carbon Sero Ysgol Gynradd Llanfair Carbon, dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol y byddai'n gwneud cais am yr wybodaeth honno gan gydweithwyr o'r adran Dysgu a Sgiliau er mwyn rhoi ateb i'r Cynghorydd.

Holodd yr Is-gadeirydd ynghylch y ganran uchel o allyriadau carbon ar gyfer caffael, a gofynnodd a fyddai'r Strategaeth Gaffael arfaethedig yn mynd i'r afael â'r rhain. Amlinellwyd y newidiadau mewn methodoleg yn gysylltiedig â mesur allyriadau ar gyfer LIC a'r effaith ar gofnodi allyriadau yn ystod COVID-19. Roedd yr allyriadau carbon uchel a welwyd ym maes caffael yn dangos bod angen i'r Cyngor â'r sector cyhoeddus fynd i'r afael â'r rhain yn effeithiol drwy ddeall beth oedd wrth wraidd yr allyriadau, ee, deunyddiau ar gyfer adeiladau a ffyrdd. Byddai'r Strategaeth Gaffael yn rhan allweddol o'r gwaith hwn i ddeall a mynd i'r afael ag allyriadau. Ychwanegodd y Cadeirydd, o'i phrofiad hi, fod lefel yr allyriadau a nodwyd ym maes caffael yn gyson â'r rhai a welwyd mewn Awdurdodau Lleol eraill. Yn rhan o'i brosesau penderfynu, roedd hi'n bwysig i'r Cyngor ddatblygu'r gallu i ystyried a ddylid prynu deunyddiau neu eitemau neu a ellid aildefnyddio neu ailgylchu deunyddiau presennol, neu eu haddasu at ddibenion gwahanol.

Cymeradwyodd y Cynghorydd Dr. Johnson fformat newydd yr adroddiad, a phwysleisiodd bwysigrwydd amlygu'r heriau, y camau ayb allweddol yn gysylltiedig â Phrosiect Sero yn yr adroddiadau hyn, a'u rhannu'n categorïau fel bo modd craffu'n well o hyn allan. Byddai graddfa 'CAG' / adroddiadau eithrio yn ddefnyddiol a hefyd o gymorth i gynnig meysydd ffocws allweddol a heriau'n gysylltiedig â gweithredu, cyllido, staffio, problemau ac ati, yn gysylltiedig â datgarboneiddio. Byddai'r Adolygiad Ynni a'r Strategaeth Gaffael hefyd yn ddefnyddiol yn rhan o'r gwaith cyffredinol o graffu ar Strategaeth Datgarboneiddio'r Cyngor a blaenoriaethau caffael eraill, hy, gwerth am arian, ar yr amod bod y Cyngor yn osgoi pennu popeth yn flaenoriaeth. Byddai'r Cyfarwyddwr yn ystyried trefnu graddfa CAG / adroddiadau eithrio o hyn allan, gan rannu'r camau'n 'fusnes arferol' a'r rhai a oedd angen sylw ychwanegol.

Teimlai'r Cynghorydd Haines nad oedd cynllun gweithredu 'cyffredinol' clir yn gysylltiedig â gweithredu datgarboneiddio a'r hyn yr oedd y Cyngor yn ceisio'i gyflawni yn y pen draw. Eglurodd y Cyfarwyddwr fod y dull 'cyffredinol' a oedd yn cael ei weithredu gan y Cyngor wedi'i gynnwys yn ei Gynllun Her, ac yn cynnwys ystod eang o fesurau er mwyn helpu i gyrraedd nodau sero net 2030 a 2050. Roedd ymholiadau eraill y Cynghorydd yn ymwneud â'r diffyg manylion ynghylch Her 7, 'Newid dulliau teithio o geir tuag at fathau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth', yn enwedig mewn perthynas â system trafndiaeth gyhoeddus integredig (hy, defnyddio

bysus), sy'n cysylltu ardaloedd gwledig a threfol y Fro, a phwysigrwydd gosod paneli ffotofoltaidd (PV) ar gyfer ynni solar ar adeiladau amrywiol ledled y Sir. O ran trafndiaeth gyhoeddus integredig, byddai rhagor o fanylion am yr hyn yr oedd y Cyngor (ar y cyd â phartneriaid fel Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd) yn ei wneud er mwyn helpu i integreiddio a gwella'r drafndiaeth rhwng ardaloedd gwledig a threfol yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol. O ran paneli PV, roedd y rhain eisoes wedi'u gosod ar nifer fawr o adeiladau'r Cyngor/adeiladau cyhoeddus, a byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu mewn adroddiadau Prosiect Sero yn y dyfodol. Ychwanegodd y Cadeirydd y dylid gosod paneli PV ar adeiladau yn y dyfodol, hy tai Cyngor, fel gofyniad sylfaenol.

O ran ymholiad y Cynghorydd Wood ynghylch lefel yr ymgysylltu â chyflenwyr y Cyngor ynghylch datgarboneiddio, nid oedd hyn ond wedi dechrau'n ddiweddar, a byddai unrhyw adborth yn cael ei fwydo i'r Strategaeth Gaffael newydd. Roedd gallu gwahanol sefydliadau i fesur allyriadau carbon yn amrywio, ac roedd y Cyngor yn disgwyl am wybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn mesur yr allyriadau hyn.

O ran ymholiad y Cynghorydd Hanks ynghylch a fyddai Ysgol Gynradd newydd y Bont-faen yn ddi-garbon, byddai'r Cyfarwyddwr yn gofyn am wybodaeth ychwanegol am hyn.

Cododd y Cynghorydd Carroll ymholiadau ynghylch gwella, ehangu a chynnal cysylltiadau trafndiaeth bws ychwanegol, ee yn ardal ei ward, a sefyllfa'r gyllideb ar gyfer y safle rheoli gwastraff newydd, a'r ffaith nad oedd safle newydd wedi'i nodi eto. O ran cysylltiadau trafndiaeth, byddai'r Cyfarwyddwr yn cyfeirio sylwadau'r Cynghorydd i sylw cydweithwyr yn y Gwasanaethau Trafndiaeth. O ran y safle rheoli gwastraff, byddai'n gofyn am y wybodaeth ddiweddar ynghylch hyn ac yn darparu'r wybodaeth honno.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, dywedodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

- (1) Nodi'r cynnydd y manylwyd arno yn yr adroddiad mewn perthynas â'r heriau o fewn y Cynllun Her Newid Hinsawdd.
- (2) Y dylid adrodd ar gynnydd cyffredinol ddwywaith y flwyddyn, yn ychwanegol at y cynnydd a adroddwyd eisoes fel rhan o'r adroddiadau monitro perfformiad chwarterol ac adroddiadau sy'n ymwneud â phynciau penodol.
- (3) Y dylid nodi'r cyllid sydd ar gael yn y cronfeydd wrth gefn a'r trefniadau a gynigir i gymeradwyo'r defnydd o gronfeydd wrth gefn i symud ymlaen â chynlluniau yn y dyfodol.
- (4) Y dylid nodi'r wybodaeth a ddarparwyd ynghylch allyriadau carbon y Cyngor fel yr adroddwyd i Lywodraeth Cymru yn hydref 2022.
- (5) Bod yr adroddiad a'r sylwadau a ganlyn gan y Pwyllgor yn cael eu cyfeirio at y Cabinet i'w hystyried:

- Pwysigrwydd Strategaeth Gaffael y dyfodol, sy'n cysylltu â'r Cynllun Her Newid yn yr Hinsawdd, er mwyn mynd i'r afael â'r allyriadau carbon sylweddol a nodwyd o fewn cadwyni caffael a chyflenwi.
- 'Gwreiddio' yn niwylliant y Cyngor bwysigrwydd asesu a oes angen prynu deunyddiau, eitemau ac ati ychwanegol, neu a oes modd ail-bwrpasu, aildefnyddio neu ailgylchu deunyddiau presennol ac ati.
- Pwysigrwydd amlygu meysydd ffocws allweddol ar gyfer adrodd yn y dyfodol, yn ogystal â'r angen i nodi'r heriau allweddol, a'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer caffael, wrth symud ymlaen.
- Yr angen i gael mwy o fanylion am system drafnidiaeth gyhoeddus integredig fel rhan o Brosiect Zero a thrafnidiaeth gynaliadwy, h.y. cefnogi ac ehangu'r defnydd o lwybrau bysiau, yn ardaloedd gwledig Bro Morgannwg.
- Edrych ar wneud mwy o ddefnydd o baneli ffotofoltäig (PV) ar gyfer pŵer solar ar adeiladau cyhoeddus y Cyngor ym Mro Morgannwg ac adeiladau eraill, megis stoc tai'r Cyngor, a thai sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd, yn ogystal â mwy o adrodd ar hyn. .
- Adrodd ar waith a wnaed gan y Cyngor gyda chyflenwyr a phartneriaid caffael ar ddatgarboneiddio a chynaliadwyedd h.y. fel rhan o'r Strategaeth Gaffael.

(6) Y dylid argymhell i'r Cabinet bod yr adroddiad hwn yn cael ei ddsbarthu i'r holl Aelodau etholedig, aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r holl Gynghorau Tref a Chymuned er gwybodaeth.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1-4) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(5) Er mwyn i'r Cabinet allu ystyried sylwadau'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol fel rhan o'i ystyriaeth o gynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Her Hinsawdd.

(6) Er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r holl Aelodau etholedig a rhanddeiliaid eraill am y trefniadau sydd ar waith i gyflawni Prosiect Sero.